**URDD GOBAITH CYMRU – Bwrdd Syr IfanC**

Cofnodion o Fwrdd Syr IfanC a gyfarfu ar Ddydd Sadwrn 29ain o Fedi 2018 yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog

**Presennol:** Nia Haf, Lleucu Bebb, Sian Roberts – Eryri, Mared Edwards, Catrin Lois – Mon, Marged Hopkins, Ella Meconochie – Ceredigion, Martha Llwyd, Beca Evans, Thomas Pugh, Lewis Kilby, - Caerdydd a'r Fro, Mali Hughes, Lois Campbell – Myrddin, Llew Jones, Ellis Jones, Holly Thompson – Morgannwg Ganol, Nia Clarke, Talulah Thomas – FFAW, Rosa Humphreys, Caitlin Roberts – Gorllewin Morgannwg, Owain Fisher – Dinbych, Tomos Bohanna, Ffion Lane– Conwy, Amy Morgan Ward, Ellie Gadson - Gwent
**Ymddiheuriadau:** Ethan Williams (Morgannwg Ganol) Siwan Dafydd (Myrddin) Awen Edwards (Eryri)

| | | Gweithredu |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Nia Haf<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau. Siwan Dafydd, Awen Fflur, Ethan Williams | |
| 2. | **Cyflwyniad i'r Bwrdd, Strwythur, a Hanes**<br>Rhoddwyd cefnir y bwrdd a fforymau rhanbarthol i bawb gan NH a EMT<br>Trafodwyd pwysigrwydd y Bwrdd, a esbonion i'r aelodau fod yr Urdd yn gwrando ac am ddatblygu y Bwrdd a'i weledigaeth | |
| 3. | **Adroddiadau o'r Fforymau Rhanbarthau**<br><br>**Mon –** Newydd gyfarfod, penodi swyddogion,<br>Cysgu Allan ar y cyd gyda Eryri ym mis Hydref<br>Clanhau Traeth<br><br>**Eryri** – Bore a ddringo ac yna cyfarfod<br>Penodi Swyddogion<br>Cysgu allan ar y cyd gyda Ynys Mon<br>Trafod gweithgareddau Nadolig, Henoed, mynd i ysbytai<br>Gweithgareddau Gwaith Tim<br>Wedi penderfynu fod aelodau yn dod a<br><br>**Bro Morgannwg** – Wedi cael fforwm llwyddiannus yn y gorffennol, niferoedd wedi lleihau tymor yma. Mynd i agor y fforwm lan i oedran Bl 9-13<br><br>**Caerdydd** – Am agor y fforwm lan i bl 10<br>Am trefnu gig, oedran 15+ - Wrthi yn ceisio cael lleoliad addas<br><br>Trafodaeth am recriwtio. IW yn esbonio sut mae'n mynd ati i greu fforwm ieuenctid Eryri. Aelodau Eryri a Mon yn sôn am fanteision fod yn rhan o fforwm. | |
| 4. | **Prentisiaid Gwaith Ieuenctid** | |

| | | |
|---|---|---|
| | EMT yn esbonio fod 4 Prentis Gwaith Ieuenctid wedi dechrau ers mis Medi | |
| **5.** | **Senedd Ieuenctid**<br>Cyflwyniad gan Megan Williams, staff y Cynulliad, Senedd Ieuenctid yn sôn am y Senedd Ieuenctid a pha fath o berson mae'r aelodau BSI yn chwilio amdano mewn Aelod Seneddol i gynrychioli'r Urdd. | |
| **6.** | **Partneriaeth yr Urdd a'r Senedd Ieuenctid**<br>EMT yn esbonio fod yr Urdd wedi bod yn llwyddiannus yn ei cais i fod yn bartner i'r Senedd Ieuenctid. Trafod beth mae hyn yn olygu a thrafodaeth ynglŷn a sut mae'r Urdd yn mynd i fynd ati i benodi aelod yn ddemocratiaeth. Cafwyd amryw o syniadau, a phenderfyniad cafwyd byddai gofyn i berson ifanc i lenwi ffurflen gyda enw a manylion cyswllt ac yna creu fideo neu cynnal cyfweliad. | EMT i lunio taflen hyrwyddo i fynd allan i Swyddogion yr Urdd |
| **7.** | **Cynhadledd BSI a CBD**<br>Croesawyd Elin Siriol i'r cyfarfod gan EMT ac esboniwyd rôl Elin o fewn yr Urdd. Rhoddwyd cefndir pam fod y ddwy gynhadledd yn uno, ac yn chwilio am syniadau. (Gweler taflen Syniadau) | ES a EMT i fynd ati i ymchwilio a creu drafft |
| **8.** | **Ymddiriedolwr Ifanc / Cynrychiolwyr ar panelu yr Urdd/Cyngor yr Urdd**<br>NH yn sôn wrth y grŵp pa mor bwysig ydyw i gael cynrychiolaeth ar y paneli yma. Trafodwyd nid yw'n deg gofyn i rywun cynrychioli'r bwrdd os yw nhw heb fynychu fwy nag un cyfarfod.<br>Gan roedd nifer o aelodau newydd, parhau byddai'r trafodaeth am Ymddiriedolwr Ifanc.<br>Criw mewn lle ar gyfer cyfarfodydd mis Tachwedd | |
| **9.** | **Stonewall**<br>EMT yn son am bartneriaeth yr Urdd gyda'r mudiad, ac yn gofyn os lle i'r mudiad cynnal benwythnos LGBT ar gyfer aelodau.<br>Trafodaeth hir, ac penderfyniad byddai i holi'r aelodau os oedd galw am hyn | EMT i barhau gyda hwn |
| **10.** | UFA<br>O'r cofnodion blaenorol – EMT yn sôn;<br>• Bod aelodau ifanc o'r Urdd wedi gwirfoddoli am stondin yr Urdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol<br>• Bod swyddogion yr Urdd wedi derbyn gwybodaeth am bosibilrwydd cyllid o Comisiynydd yr Heddlu (Ardaloedd penodol)<br>• NH yn cadarnhau fod yr Eisteddfod yn mynd yn ddi-blastig. Cynrychiolydd o adran Eisteddfod yn y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd/Rhagfyr<br><br>Sut mae swyddogion yn cysylltu gyda staff. NH yn awyddus i staff cael yr hawl i ddefnyddio What's App<br><br>**Beth yw'r Urdd?**<br>Nifer yn teimlo bod nhw ddim yn gweld ei swyddogion digon, angen presenoldeb yn yr ysgolion, nid yn unig i hyrwyddo taith neu rhoi flyer allan. EMT yn esbonio fod staff yn brysur, a nid 1 ysgol yn unig sydd gan y swyddogion i gyrraedd. | EMT i sôn wrth staff am 'Beth yw'r Urdd?' i aelodau BSI |

| | | |
|---|---|---|
| | **Paned a Sgwrs**<br>Aelodau Môn ag Eryri yn pwysleisio ar y pwysigrwydd o siarad a chreu perthynas. Am drosglwyddo'r neges yma i staff eraill. Beth am gynnal cyfle i gael sgwrs o fewn ysgol/Cymuned?<br>**Profiad Gwaith**<br>NH yn awyddus i bobl ifanc cael profiad gwaith gyda'r Urdd. EMT yn esbonio fod hwn eisoes yn digwydd ar draws pob adran. NH yn awyddus i weld hwn yn ystod wythnos Eisteddfod. EMT yn son rhywbeth allwn drafod gyda Adran Eisteddfod cyfarfod nesaf | EMT a NH yn mynd i weithio ar hwn. |
| **11.** | Cyfarfod Nesaf<br>**30ain o Dachwedd – 2il o Ragfyr 2018 – Gwersyll yr Urdd Glan-Llyn** | |
| **12.** | **Materion Trafod Fforymau**<br><br>1. Prif ffocws - Creu fforwm – Creu bwrlwm, hyrwyddo a sefydlu fforwm<br>**2.** Cynrychiolaeth Ieuenctid ar faes Eisteddfod yr Urdd – gan gynnwys cystadlaethau, ond yn bennaf yr arlwy tu allan i gystadlu. Ydy chi'n hapus beth mae'r Urdd yn cynnig? Ydy chi'n ymwybodol o'r gig, y Ti-pi? Os angen hyn? Neu ydy bobl ifanc yn mynd yno i gystadlu yn unig??<br>3. Sut mae hyrwyddo cyfleoedd Ieuenctid yn well? Ydy chi'n ymwybodol o Taith i Hwngari? Llysgenhadon yr Urdd?<br>4. Pa platfform Cyfryngau Cymdeithasol sydd orau i hyrwyddo gweithgareddau/negeseuon yr Urdd yn eich barn chi?<br>5. PLASTIC – Ydy'r Urdd yn gwneud digon? | |
| | | |